# Sesiwn 3: Exodus a Rhyddid
## Arweiniad Grwpiau Bychan

### **Cynhesu** (cysylltu â'r thema)

*A ydych yn medru meddwl am ffyrdd y mae stori Exodus wedi ysbrydoli'n diwylliant? e.e. Ffilmiau (The Prince of Egypt), Caneuon ('Bread of Heaven'), mudiadau cyfiawnder cymdeithasol (gwrth-gaethwasiaeth), Moses baskets! a.y.b.*

*Pryd a lle ydych chi'n teimlo'n fwyaf rhydd? Beth sydd yn gwneud i ni deimlo'n gaeth?*

### **Neges** (fideo cryno)

Fideo pump i saith munud gan Jos Edwards sy'n crynhoi stori fawr y Beibl a sut mae'n berthnasol i'n bywydau ni.

### **Darlleniadau beiblaidd** (i'w cyd-ddarllen)

*Exodus 14.1314.13–14; 15.115.1–2,11; 19.419.4–6; Ioan 8.318.31–32*

### Amser trafod

- Sut mae diwylliant y gorllewin yn diffinio rhyddid? Sut mae stori Exodus yn ein helpu i ail-feddwl am ryddid go iawn?
- Beth sy'n teimlo fel dy "Aifft" di neu yn her Pharo ar hyn o bryd?
- Sut wnaeth Moses a Miriam ddathlu gwaredigaeth Exodus (Exodus 15)? Sut fedrwn ni ddathlu a chadarnhau ein rhyddid trwy Iesu?
- Sut wnaeth Iesu gyflawni stori Exodus yn y ffordd eithaf (Ioan 8.31–32)?
- Ym mha ffyrdd ydym ni yn profi mwy o ryddid heddiw pan rydym yn dewis byw yn ffordd Duw (Exodus 19.4–6)? Sut ydych wedi profi hyn yn bersonol?
- Sut mae stori Exodus yn medru ein hysbrydoli i weithio dros gyfiawnder heddiw?
- Ar y cyfan, sut mae stori Exodus yn ein helpu i ganfod gwir ryddid yn ein bywydau?

### **Amser ymateb** (adlewyrchu a gweddïo)

Gwrandewch ar y gân 'Dim mwy yn gaethion / No longer slaves' (Bethel Music).

Diolchwch i Dduw am y rhyddid sydd gennym yn Iesu a gweddïwch am ei help i ddod â rhyddid i eraill.

### Cynnwys dyddiol

Parhewch â'r daith yr wythnos hon trwy ddarllen y penodau dyddiol o gynnwys ac Ysgrythur yn llyfr y gyfres gan Andrew Ollerton, *The Bible: A Stori that makes sense of life* (Hodder).